**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 09.15 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Dilyniant i gyflwyniad gan Y Fforwm Lesbiaid, Hoywon A Deurywolion (LGB) |

**Pwrpas:**

Yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 17 Hydref 2002, cytunodd y Gweinidog dros Lywodraeth Agored i ystyried pa gamau y gellid eu cymryd ar nifer o'r materion a godwyd yng Nghyflwyniad Fforwm LGB Cymru:

- A allai'r Cynulliad wahodd colegau hyfforddi athrawon i fanteisio ar arbenigedd y Fforwm LGB wrth hyfforddi athrawon ar sut i roi cyngor ar rywioldeb a thuedd rywiol (**eitem 1**).
- A ddylai'r Cynulliad annog rhagor o awdurdodau lleol i ystyried cynlluniau cofrestru partneriaethau sifil (**eitem 2**).
- Sut gallai'r Pwyllgor annog cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydnabod perthynas y tu allan i briodas yn eu cynlluniau pensiwn (**eitem 3**).
- Sut gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â'i bryderon ynghylch Adran 28 (**eitem 4**).
- A allai fod angen cyhoeddi canllawiau i lywio penderfyniadau a wneir ynghylch mabwysiadu neu faethu yng ngoleuni'r bleidlais ddiweddar yn Nhy'r Arglwyddi ar y Mesur Mabwysiadu a Phlant (**eitem 5**).

**<u>Eitem 1</u>**

Ar hyn o bryd, mae'r safonau ar gyfer ennill Statws Athro Cymwysedig a gofynion cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon i'w cael yng nghylchlythyr 13/98 y Swyddfa Gymreig (mae copi ar gael ar fewnrwyd y Cynulliad yn Mynegai i'r Pynciau; Hyfforddiant ac Addysg; Mynegai Cyhoeddiadau; Cylchlythyrau; Cylchlythyrau 1998). Mae'r gofynion hyn yn angenrheidiol, felly byddai meysydd eraill fel yr un y mae'r Pwyllgor wedi'i grybwyll, yn cael eu cynnwys yn ôl disgresiwn darparwyr yr hyfforddiant cychwynnol annibynnol. Rhaid i'r myfyrwyr y dyfernir Statws Athro Cymwysedig iddynt ddangos eisoes, pan gant eu hasesu, eu bod yn deall sut y mae datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol disgybl yn gallu effeithio ar ei allu i ddysgu.

Nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb am benderfynu ar ffurf, na chynnwys, rhaglenni hyfforddiant unigol ar wahân i bennu'r gofynion angenrheidiol. Byddai unrhyw ddarparwr sy'n cynnig cyrsiau yn y maes hwn heb os yn gallu manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd amryw o ffynonellau, gan gynnwys Fforwm LGB o bosibl.

Bydd y cylchlythyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cael ei adolygu yn y dyfodol (nid oes amserlen bendant, hyd yn hyn), a bydd yn destun ymgynghori.

**Eitem 2**

Ar 6 Rhagfyr aeth Barbara Roche â'r ddadl gyhoeddus ar gofrestru partneriaethau sifil yn ei blaen trwy ddweud fod Llywodraeth y DU yn credu fod yna achos gref o blaid cynllun cofrestru partneriaethau sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw.

Ar hyn o bryd, nid oes gan gyplau o'r un rhyw unrhyw ffordd o gael eu cydnabod yn gyfreithiol fel cwpl. Yn ôl y gyfraith, nid oes perthynas rhyngddynt, ac mae hyn yn achosi problemau mewn sawl agwedd ar eu bywydau. Mae pobl hoyw wedi cael eu rhwystro rhag ymweld â phartner sy'n ddifrifol wael mewn ysbyty, neu'u rhwystro rhag cymryd eu lle haeddiannol yn angladd eu partner, mae rhai wedi cael eu gyrru o'u cartref ar ôl marwolaeth partner, neu wedi gorfod gwerthu eu cartref i dalu treth etifeddiaeth.

Byddai cynllun cofrestru sifil yn golygu bod cyplau o'r un rhyw yn gallu llofnodi cofrestr, gan ddatgan eu perthynas yn ffurfiol. Wrth gofrestru, byddent yn ennill hawliau a chyfrifoldebau.

Mae'r cynllun yn cael ei ddefnyddio eisoes yn 8 o wledydd yr UE, yn ogystal â rhai o Daleithiau'r UDA (ee Vermont, California) a thaleithiau Canada (Quebec, Nova Scotia). Mae llawer o wledydd eraill yn ei ystyried hefyd.

Mae Abertawe a gwahanol gynghorau sir wedi cyflwyno'u cofrestr partneriaeth eu hunain. Symbolaidd yw'r rhain ar hyn o bryd - nid oes unrhyw statws cyfreithiol iddynt ac nid oes unrhyw hawl benodol yn gysylltiedig â hwy.

Flwyddyn yn ôl, cyhoeddodd Barbara Roche y byddai Llywodraeth y DU yn archwilio'r polisi ar gofrestru partneriaethau sifil, a goblygiadau hynny o ran y gost. Ers hynny, mae llawer o waith wedi'i wneud mewn nifer o feysydd polisi ar draws y llywodraeth.

Cydnabyddir fod diffyg statws cyfreithiol yn achosi problemau mawr ym mywydau bob dydd partneriaid o'r un rhyw. Mae yna ddadleuon cryf o blaid cynllun cofrestru partneriaethau sifil yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cyplau o'r un rhyw, a fydd yn golygu hawliau a chyfrifoldebau. Nod Llywodraeth y DU fyddai rhoi cymaint o'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan gyplau eraill ar hyn o bryd i gyplau o'r un rhyw.

Mae rhai materion cymhleth i'w datrys o hyd ac mae'r Llywodraeth Ganolog yn parhau i weithio ar y rhain, ac yn ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Llywodraeth Ganolog yn cynnig cyhoeddi papur ymgynghori yn yr haf.

Yn y cyfamser, gall y Cynulliad gyhoeddi ein bod yn cefnogi egwyddor partneriaethau sifil. Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored wedi rhoi gwybod i Barbara Roche AS, Gweinidog y DU sy'n gyfrifol am fynd â'r cynllun yn ei flaen, fod y Cynulliad yn gefnogol i'r syniad o gyflwyno cynllun Cofrestru Partneriaethau Sifil.

**Eitem 3**

Nid oes gan y Cynulliad y pwer i ychwanegu amodau at gynlluniau pensiwn. Er hynny, mae cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil a gyflwynwyd y llynedd yn rhoi buddiannau i bobl ddibynnol ddibriod. Yr unig beth y gall y Cynulliad ei wneud yw rhoi gwybod i bobl am y cynllun hwn ac annog cyrff cyhoeddus eraill i ddarparu buddiannau cyffelyb er mwyn sicrhau bod cysondeb ar draws y sector cyhoeddus.

Gallai'r Cynulliad ysgrifennu at yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gymeradwyo cynllun pensiwn newydd y gwasanaeth sifil. Bydd hefyd yn nodi y gallai'r Gyfarwyddeb Gyflogaeth, unwaith y bydd wedi'i phasio, arwain at fuddiannau cyfartal ym mhensiynau'r sector preifat a chyhoeddus.

Sylwadau Cyffredinol

Mae cynlluniau pensiwn yn annibynnol ac mae ganddynt eu rheolau a'u hamodau eu hunain. Os yw corff yn gysylltiedig â'r Llywodraeth ac yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gydag arian cyhoeddus, mae'n dilyn bod y pensiwn yn rhan o'r telerau a'r amodau a gellir, i ryw raddau, ei reoli. Ond yn gyffredinol nid yw'n bosibl gorfodi'r sawl sy'n darparu'r pensiwn i wneud darpariaeth benodol.

Y llynedd cyflwynodd y gwasanaeth sifil gynllun pensiwn newydd sy'n caniatau i bobl ddibynnol ddibriod gael eu henwi fel buddiolwyr ac mae hyn yn cynnwys pobl o'r un rhyw. Roedd y pensiwn newydd yn ddewisol i aelodau presennol ac nid oes llawer wedi ei ddewis. Ond, ar y cyfan, mae modd ystyried y cynllun fel esiampl.

Mae cofnodion Hansard 21 Ionawr 2003 yn cyfeirio at Fesur Aelod Preifat a gyflwynwyd gan James Purnell AS i roi'r hawl i bobl sy'n derbyn pensiwn yn y sector cyhoeddus allu trosglwyddo'u buddiannau i bartneriaid dibriod, sy'n ddibynnol ar ei gilydd yn ariannol; ac at ddibenion cysylltiedig.

Yn ei araith mae'n dweud 'Byddai'r Mesur yn creu cysondeb ar draws y sector cyhoeddus. Fel y dywedais, dim ond tua chwarter o gynlluniau y sector cyhoeddus sy'n darparu'r buddiant hwnnw o'i gymharu â 90% o gynlluniau'r sector preifat, sy'n rhyfeddol efallai. Felly mae'r sector cyhoeddus yn bell y tu ôl i'r sector preifat o ran gwahaniaethu.' Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod y broblem ers Papur Gwyrdd 1998 ac mae o blaid cydnabod partneriaid dibriod.

Byddai'r Mesur yn helpu i recriwtio pobl i'r sector cyhoeddus. Gall cyflogwyr yn y sector preifat gynnig sicrwydd i bartneriaid dibriod, ond ni cheir yr un sicrwydd yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid bod hyn yn faen tramgwydd i ryw 15% o'r boblogaeth sy'n byw â phartner ond sy'n ddibriod. Nid yw'r sector cyhoeddus felly yn darparu digon o fuddiannau i ddenu pobl yn y categori hwnnw i'r sector cyhoeddus.

Mae'r Mesur yn gysylltiedig â thrafodaethau diweddar yn y Ty i roi hawl i gyplau dibriod fabwysiadu plant. Mae cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil yn cydnabod partneriaid dibriod, ond eto nid oes gan filiynau yn y sector cyhoeddus yr un hawliau. Ni fyddai'n costio unrhyw beth i weithredu hyn a byddai'n adlewyrchu'r newid yn ein cymdeithas ac yn helpu'r sector cyhoeddus i recriwtio pobl.

Mae'n debyg na fydd y Mesur Aelod Preifat hwn yn cael ei basio oherwydd prinder amser seneddol. Heb ddeddfwriaeth nid yw'n debygol y bydd cynlluniau pensiwn yn newid, felly bydd angen codi ymwybyddiaeth o'r materion uchod. Bydd angen tynnu sylw at yr arbenigedd sy'n cael ei golli i'r sector preifat ac at y ffaith na fyddai'r newid yn gostus iawn.

Er hynny, efallai y bydd Erthygl 13 y Gyfarwyddeb Ewropeaidd, sydd i'w gweithredu drwy ddeddfwriaeth, yn sicrhau buddiannau cyfartal. Mae'n gysylltiedig â rhwystro gwahaniaethu yn y gweithle, ar sail tuedd rywiol, er enghraifft.

**Eitem 4**

Cynhaliodd y llywodraeth ganolog ei dadl lawn gyntaf ar y Mesur Llywodraeth Leol ar 7 Ionawr. Roedd yr holl bleidiau'n croesawu'r cynnig i ddiddymu Adran 28.

Bydd gwelliant i ddiddymu Adran 28 yn nawr yn cael ei gyflwyno gan AS Llafur, Kali Mountford, a phleidleisir arno yn ystod cam y Pwyllgor ac Adrodd y Mesur Llywodraeth Leol.

Gofynnir am farn y cyrff datganoledig hefyd. Mae'r Cynulliad wedi nodi'n glir ein bod yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu Adran 28.

Ym mis Gorffennaf 2002, bu'r Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth i lunio cylchlythyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion:

http://www.cymru.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/sre-w.pdf

Ar dudalen 11 adran 1.30 y ddogfen, nodir nad yw Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn atal trafodaeth wrthrychol o gyfunrhywiaeth yn y dosbarth, a chaiff ysgol ddarparu cyngor a chefnogaeth i ddisgyblion.

**Eitem 5**

DEDDF MABWYSIADU A PHLANT 2002

Mabwysiadu gan gyplau o'r un rhyw

- Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn caniatau i gyplau o'r un rhyw sy'n byw fel partneriaid mewn perthynas deuluol barhaol fabwysiadu.

- Nid yw'r darpariaethau hynny o'r Ddeddf mewn grym eto. Mae'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu dod â'r Ddeddf i rym yng Nghymru a Lloegr erbyn Rhagfyr 2004. Bydd hyn yn cael ei wneud fesul cam.

- Cynhelir proses ymgynghori gydag asiantaethau mabwysiadu ac eraill yn y maes ynghylch y trefniadau cychwyn a'r rheoliadau arfaethedig sydd i'w gwneud o dan y Ddeddf, ac ar ganllawiau cysylltiedig, cyn penderfynu'n derfynol.

Y Cefndir

Deddf Mabwysiadu 1976

- Ar hyn o bryd o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976 dim ond cyplau priod neu berson unigol gaiff wneud cais i fabwysiadu. Bydd y darpariaethau hyn yn parhau mewn grym nes eu diddymu gan Ddeddf 2002.

- Yn achos person unigol, gall y person hwnnw fod mewn perthynas â pherson o'r un rhyw. Byddai cais person unigol i fabwysiadu yn cael ei asesu gan asiantaeth fabwysiadu yn yr un modd ag unrhyw gais arall, a byddai'r un gofynion a'r meini prawf yn berthnasol.

- Mae'n rhaid i ymgeisydd fod yn 21 neu drosodd, yn byw yn y DU ac, yn achos person unigol, yn ddibriod.

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

- Pan ddaw'r ddeddf i rym, bydd adrannau 49 i 51 y Ddeddf yn caniatau i gyplau neu i berson unigol wneud cais i fabwysiadu.

- Bydd yn rhaid i ymgeisydd fod yn 21 neu drosodd, wedi ymgartrefu ac yn byw yn Ynysoedd Prydain ers o leiaf blwyddyn ac, yn achos person unigol, yn ddibriod.

- Mae 'cwpl' yn cael ei ddiffinio yn adran 144(4) y Ddeddf fel

- 'cwpl priod' neu
- 'dau berson (o wahanol ryw neu o'r un rhyw) sy'n byw fel partneriaid mewn perthynas

deuluol barhaol' [ac eithrio unrhyw achos lle mae un o'r cwpl yn rhiant, taid, nain, chwaer, brawd, modryb, neu yn ewythr i'r llall]

- Mae Deddf 2000 yn cysoni cyfraith mabwysiadu â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Plant 1989 i sicrhau mai lles y plentyn, trwy gydol ei fywyd, yw ystyriaeth bwysicaf llys neu asiantaeth fabwysiadu wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch mabwysiadu plentyn.

Cymeradwyo i fod yn rhiant maeth

- Nid yw Deddf 2002 yn newid dim ar y ddeddfwriaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth.

- Dyma sydd yng nghanllawiau presennol Cyfrol 3 cyfres Canllawiau a Rheoliadau Deddf Plant 1989 ar 'Leoliadau Plant' (sy'n gymwys i Gymru a Lloegr)

- "3.14 Authorities and those interested in becoming foster parents must understand that an authority’s duty is, unequivocally and unambiguously, to find and approve the most suitable foster parents for children who need family placement. It would be wrong arbitrarily to exclude any particular groups of people from consideration. But the chosen way of life of some adults may mean that they would not be able to provide a suitable environment for the care and nurture of a child. No one has a ‘right’ to be a foster parent. Fostering decisions must centre exclusively on the interests of the child."

- Cyhoeddwyd Safonau Cenedlaethol y DU ar Ofal Maeth ym 1999. Mae Safon 13.2 ar gyfer Cymru a Lloegr yn nodi

- bod unrhyw un sy'n gwneud cais i gael ei ystyried yn ofalwr maeth yn cael ei asesu ar sail ei allu i ddarparu gofal priodol i blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal cymdeithasol.